PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG


# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 35 | Awst 27, 2026 | 50c.

## A ddylem aberthu naws ein 'llefydd sanctaidd' i arbed yr amgylchedd?



Ynys fechan tua dwywaith maint Enlli yw ynys Iona, ger arfordir gorllewinol yr Alban. Dyma oedd 'man geni Cristnogaeth Geltaidd yr Alban' yn y 6ed ganrif, pan sefydlodd Sant Columba o Iwerddon ei abaty ar yr ynys. Daeth Columba o fynachlog Finian, sant a fu o dan hyfforddiant Cattwg Ddoeth yn Llancarfan. Er mai dim ond 180 o bobl sy'n byw ar Iona, mae ganddi statws byd-eang fel lle sanctaidd, gyda phererinion yn tyrru yno o bell i fwynhau'r tawelwch. Ond nawr, honnir bod y sancteiddrwydd yna'n cael ei fygwth gan gynllun i godi fferm wynt anferth yn y môr tua 12 milltir o'r ynys. Bwriedir codi dros 90 o dyrbinau a fyddai'n 1,000 troedfedd o uchder – sef dwywaith maint twrbeini Gwynt y Môr oddi ar arfordir gogledd Cymru. Byddai datblygiad Scottish Power Renewables, ar safle o'r enw MachairWind, yn cynhyrchu digon o drydan i gyflenwi dwy filiwn o gartrefi. Mae'r cwmni'n dweud bod hwn yn brosiect ynni gwyrdd hanfodol a fydd yn darparu mwy o ynni glân i'r grid cenedlaethol, yn cryfhau diogelwch ynni'r DU ac o fudd economaidd a chymdeithasol hirdymor ar draws ynysoedd ac arfordir gorllewinol yr Alban a thu hwnt.




### Golygfa ddiwydiannol enfawr

Ond mae Cymuned Iona, mudiad Cristnogol eciwmenaidd sydd ag aelodau a chanolfannau mewn sawl gwlad, gan gynnwys Cymru, yn gwrthwynebu'r cynllun. Dywedodd Ruth Harvey, arweinydd y Gymuned, y byddai'r tyrbinau i'w gweld yn blaen o ynys Iona ac yn fwy fyth o ynysoedd cyfagos fel Colonsay ac Oronsay, lle mae cymunedau Cristnogol hefyd wedi bod ers 1,500 mlynedd. 'Byddai hyn yn gorfodi golygfa ddiwydiannol enfawr yn agos i safle sanctaidd arbennig sy'n fyd-enwog,' meddai. 'Nid Cristnogion yn unig sy'n gwrthwynebu'r datblygiad. Mae ymchwydd o wrthwynebiad ar draws y byd i'r fferm wynt benodol yma.'

### Paradocs Cristnogol

Rydym yn dyheu am fyd cyfiawn a heddychlon lle gall pob bywyd ffynnu,' meddai'r Datganiad o Weledigaeth ar wefan Cymuned Iona. O weld effaith real a dychrynllyd newid hinsawdd ar fywydau pobl nawr, a'r bygythiad arswydus i fywydau'r cenedlaethau sy'n codi, sut all y Gymuned gyfiawnhau gwrthwynebu datblygiad MachairWind am ei fod yn amharu ar yr olygfa, a hynny ar y gorwel pell? Mae Ruth Harvey yn cydnabod y penbleth. 'Rydym yn deall y paradocs oherwydd fel cymuned Gristnogol, rydym yn cytuno'n llwyr fod y trawsnewidiad cyflym i ffwrdd o danwydd ffosil yn weithred o edifeirwch ac adferiad. Mae gwrthod neu oedi prosiect adnewyddol yn ddiangen allan o gyfleustra neu estheteg pur yn foethusrwydd na all y ddaear ei fforddio. Ond wrth gefnogi'r trawsnewidiad i ynni adnewyddol, credwn na ellir cyflawni gwir gyfiawnder trwy aberthu cymunedau ecolegol a dynol lleol.'

### Dod yn nes adre

Mae ynys Iona yn ddigon pell o Gymru, ond mae sawl cynllun i godi ffermydd gwynt yn nes adre. Cafodd trwyddedau eu rhoi i ddatblygu'r fferm wynt forwrol fwyaf yn y byd tua 30 milltir o arfordir Sir Benfro. Byddai 260 o dyrbinau anferth yn cynhyrchu dros ddwywaith y trydan o MachairWind, gyda'r gwifrau yn cludo'r trydan i is-orsaf anferth ger Llandyfaelog yn Sir Gâr. Ac ar draws tir Cymru, mae gan gwmni ynni Bute 16 o safleoedd, o Gaerffili hyd at Gerrigydrudion. Ei fwriad yw codi 200 o dyrbinau, hyd at 650 troedfedd o uchder. Os ydych yn aelod mewn capel yng nghefn gwlad sut fyddech chi'n teimlo petai rhai o'r rheini yn cael eu codi yn agos i'ch 'lle sanctaidd' chi?

### Aberthu cymuned er elw?

Ac nid tyrbinau yn unig, ond y peilonau dur a fyddai'n cludo'r trydan o'r ffermydd gwynt am filltiroedd lawer ar draws y wlad. Rwy'n aelod yng nghapel gwledig Bwlch-y-corn, o'r lle y gwelir rhes hir o dyrbinau sy'n 500 troedfedd o uchder yn codi o fforest Brechfa llai na thair milltir i ffwrdd. Nid yw hynny'n ein poeni ni. Ond


*parhad ar dudalen 2*

## Trefor Jones-Morris

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parchg Trefor Jones-Morris ar 15 Awst wedi cyfnod o waeledd. Bu ef yn weinidog i'r Arglwydd yn Seilo, Llangeler; Hermon, Cynwyl; Seion, Llandysul; Ebeneser, Wrecsam a Pisga, Llandegla.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i deulu yn eu colled a'u hiraeth yn enwedig ei wraig Elen, ei ferch Lois a'i efaill Dafydd Jones-Morris. 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw.' (Ioan 11:25)

# A ddylem aberthu naws ein ‘llefydd sanctaidd’ i arbed yr amgylchedd? – *parhad*




mae pryder am y cynllun i godi peilonau dur i gludo gwifrau o fferm wynt newydd yn ne Ceredigion, a fyddai’n pasio o fewn lled cae i’r capel ac yn nes fyth at gartrefi rhai aelodau gan ostwng gwerth eu cartrefi ac amharu ar eu bywydau. Mae cwmni o Bencader yn arbenigo yn y gwaith o gladdu gwifrau trydan trwm, ac yn defnyddio peiriannau mawr i wneud hynny mewn gwledydd eraill yn Ewrop.

Ond byddai’n rhy gostus gwneud hynny yng Nghymru, meddai cwmni GreenGen sy’n gyfrifol am y cyswllt gyda’r fferm wynt yma a sawl un arall. Ai rhoi elw o flaen amharu ar fywydau pobl a chymunedau yw hyn?

### Fflamau uffernol

Uwchlaw hyn i gyd rhaid i ni edrych ar y darlun mawr. Mae Dr Hefin Jones, cyn-lywydd Undeb yr Annibynwyr, yn wyddonydd blaenllaw. Nôl ym 2014, mewn Cwrdd Chwarter ym Mwlch-y-corn, buodd yn esbonio sut mae’r carbon rydym yn ei gynhyrchu trwy losgi tanwydd ffosil yn cael ei gaethiwo yn yr amgylchedd, gan achosi newid hinsawdd. Tra’n gwerthfawrogi’r rhybudd, efallai bod y gynulleidfa bryd hynny wedi tybio mai problem i’r cenedlaethau a ddaw fyddai newid hinsawdd. Ond bellach mae’n ffaith! Mae’r sychder poeth a hir wedi troi darnau mawr o arwynebedd Cymru yn ‘grindir cras’, fel y canodd Pedr Fardd. Os mai cosb pechod yw fflamau uffern, mae’r gosb am y modd pechadurus o hunanol, trachwantus a difater rydym wedi trin adnoddau’r byd i’w weld yn y tanau uffernol sydd wedi bod yn llosgi o’n cwmpas mewn sawl rhan o Gymru ac mewn gwledydd eraill yr haf hwn.



### Yr her i ni

Mae’r ras ymlaen i gynhyrchu ynni glân yn hytrach na llosgi olew, nwy a glo yn y gobaith o gyfyngu ar newid hinsawdd. Mae hefyd yn frwydr yn erbyn grymoedd masnachol mawr sy’n buddsoddi mewn tanwydd ffosil, a phobl bwerus fel Donald Trump a’i ‘Drill Baby Drill’ gwallgof. Os bydd cynllun i godi fferm wynt ger ein capel ni, a ddylem dderbyn yr effaith ar ein ‘lle sanctaidd’ os yw hynny’n cyfrannu’r mymryn lleiaf tuag at leddfu’r difrod i fyd Duw, sy’n sanctaidd i gyd? Neu a fyddai’r effaith ar y lleol yn rhy ddifrodol i’w dderbyn, fel honna Cymuned Iona?

**Alun Lenny**

# Adroddiad am waith hyfforddi *Rhan 2*

### Datblygu’r adnodd hyfforddi digidol

Mae colegau a phrifysgolion bellach yn cofleidio sawl dull o addysgu, yn cynnwys platfformau megis ‘Blackboard’. Mae’r math hwn o ddysgu yn rhoi’r cyfle i fyfyrwyr ddilyn hyfforddiant gan fanteisio ar amrywiaeth o ddulliau dysgu, yn cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb, sesiynau rhithiol, a sesiynau ac adnoddau wedi eu paratoi o flaen llaw, a’u gosod ar y platfform addysgu.




Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae datblygu’r amrywiaeth hwn i’n cyd-destun hyfforddi ni wedi bob yn weledigaeth glir genna’ i. Gyda sawl un yn dymuno dilyn hyfforddiant, tra hefyd yn gweithio, ac o bosib yn magu teulu, roeddwn am ein gweld yn cynnig hyfforddiant cyraeddadwy, ond heb ildio dim ar y safon academaidd.

Gogoniant y wefan yw ein bod yn gallu cynnig rhai modiwlau drwy’r we, i’w hastudio heb orfod cyfarfod ar amser penodol, ond ein bod yn parhau i allu sicrhau presenoldeb llawn, a bod y modiwl wedi ei ddilyn yn llawn yn cynnwys unrhyw asesiadau llafar neu ysgrifenedig. Ond rydym hefyd yn wyliadwrus nad oes diwylliant o hyfforddiant ynysig yn datblygu, a dyna pam ein bod yn sicrhau bugeilio cyson i’n myfyrwyr, yn ogystal â dyddiad penodol i gyfarfod ar gyfer pob modiwl yn Aberystwyth, sy’n rheidrwydd os am gwblhau’r modiwl yn llawn.

Rhaid cofio hefyd na fydd pob modiwl ar y ffurf digidol hwn, sy’n golygu y bydd rhai modiwlau yn parhau i gael eu dysgu wyneb yn wyneb.

Yn wyneb y datblygiadau mawr fu ym maes Deallusrwydd Artiffisial yn y blynyddoedd diwethaf, rydym hefyd wedi llunio dogfen sy’n trafod y defnydd a ganiateir, ac na chaiff ei ganiatáu yng nghyswllt ein hyfforddi. Mae hyn yn rhywbeth sy’n cael ei gymryd o ddifrif gan sefydliadau addysgol a darparwyr hyfforddiant, ac rydym ninnau yn edrych arno yn yr un modd.

Carwn ddiolch i bawb fu ynghlwm â datblygu’r wefan er mwyn cynnig yr adnodd amhrisiadwy hwn ac yn arbennig i

*parhad ar dudalen 6*

Yr Adran
Gydenwadol

27 Awst 2026
Rhifyn 287

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Pigion Eisteddfod y Garreg Las

Unwaith eto, fe heidiodd y tyrfaoedd i'r Eisteddfod Genedlaethol, a hynny, eleni, i ogledd sir Benfro a maes Eisteddfod y Garreg Las, ar 1–8 Awst. Ddechrau'r wythnos gwelwyd un o'r nosweithiau prysuraf erioed ar Lwyfan y Maes, wrth groesawu'r Super Furry Animals i gyflwyno set Gymraeg o rai o'u caneuon eiconig.

Cafwyd cystadlu, dathlu a mwynhau ynghanol y cannoedd o ddigwyddiadau a drefnwyd mewn amryw o leoliadau ar draws y maes eang, gan gynnwys y Pentref Llên, oedd yn ddarpariaeth newydd ar gyfer eleni.

Yn yr un modd bu pabell tystiolaeth yr eglwysi, sef pabell wedi ei threfnu gan Gytûn, yn gyfrwng i estyn croeso i'r miloedd o ymwelwyr wnaeth droi i mewn am baned a sgwrs. Yn ôl yr arfer cynhaliwyd oedfa ddyddiol yn y babell am 11 o'r gloch, yn cael ei harwain gan gynrychiolwyr o blith yr eglwysi lleol. Datblygiad newydd ar gyfer eleni oedd cynnal oedfa ddyddiol arall, a hynny am 12 o'r gloch, sef gwasanaeth cymun, wedi ei drefnu gan Esgobaeth Tyddewi, oedd wedi archebu uned ychwanegol wrth ein hymyl, er mwyn cynnig y ddarpariaeth hon i Eisteddfodwyr.

Braf hefyd oedd gweld cynulliad teilwng yn y Pafiliwn ar y bore Sul ar gyfer oedfa'r eisteddfod, dan arweiniad nifer o weinidogion a lleygwyr y fro, a chorau a phartïon o ysgolion Sul yn cyflwyno eitemau ar y llwyfan. I lawer, bu'r Gymanfa yn y Pafiliwn ar y nos Sul yn brofiad gwefreiddiol, gyda'r arweinydd, Daniel Rees, yn gwneud cryn argraff gyda'i gyflwyno hwyliog a diffuant, a Chôr yr Eisteddfod yn arwain y mawl.



*Yr oedfa yn y Pafiliwn ar y bore Sul*




*Lansio ymgyrch Cymorth Cristnogol gyda rhai o arweinwyr yr eglwysi*



*Y rhai a gymerodd ran yng nghyfarfod Y Beder Ifengyl*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

Bu bwrlwm ym Mhabell yr Eglwysi gydol yr wythnos, a braf oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, A Rocha, Cyngor yr Ysgolion Sul a Golau Gras i arddangos gyda ni. Cafwyd cyfle i lansio albwm cerddorol newydd, sef *Goleuni*, wedi ei drefnu gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Croesawyd y Parch. Athro John Tudno Williams atom hefyd i sôn am ei gyfrol ddiweddaraf, *Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg*. Roedd yna ddarpariaeth ar gyfer y plant, gan gynnwys posau, gemau a digon o waith lliwio a chrefft. Roedd Cyhoeddiadau'r Gair yno hefyd gyda'u stondin lyfrau, a braf oedd gweld ambell lyfr newydd yn eu plith. Lansiwyd cyfrol o waith Euros Jones Evans, sef *Ei Ddilyn Wnaf*, sy'n cynnig arweiniad i'r sawl sydd am gael ei dderbyn yn aelod o eglwys Iesu Grist.

Cynhaliwyd dau gyfarfod gan Gymorth Cristnogol hefyd i lansio'u hymgyrchoedd diwedaraf, a braf oedd cael croesawu Mari McNeill a'i chyd-weithwyr i wneud hynny. Galwodd Eurfyl Lewis i mewn i rannu ychydig am y cylchgrawn *Cristion*, gan annog bawb i danysgrifio iddo. Ac ar 6 Awst cafwyd oedfa fer gan Owain Llyr Evans, yn atgoffa pawb o'r hyn a ddigwyddodd 81 mlynedd yn ôl yn Hiroshima, a deisyf am heddwch yn ein byd ni heddiw.

Ymhlith y pigion cerddorol ar y stondin yr oedd cyflwyniad gan Beti a Siân o Perlau Taf gynt, Alwyn Daniels yn canu ei gân ar y gitâr gyda chriw o aelodau, yn ogystal â Meilyr Tomos, a fu'n cyfeilio ar yr organ i'n diddanu dros baned. Elfen bwysig o'r stondin yw'r baned, ac fe fu cryn fynd ar y te a'r coffi gydol yr wythnos.

Eleni roedd Cytûn wedi trefnu dau sesiwn ym Mhabell y Cymdeithasau. Roedd y cyntaf ohonynt ar y dydd Iau, sef cyfarfod i lansio *Y Beder Ifengyl*, cyfieithiad llafar Lyn Lewis Dafis o'r pedair efengyl, a hynny yn nhafodiaith unigryw sir Benfro. Diolch i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymdeithas y Beibl am eu cefnogaeth i'r project, ac i Sian Wyn Rees am lywyddu'r cyfarfod. Bu'n dda gallu cofio'n annwyl am Lyn, gan gael cyfle i wrando ar deyrnged gan ei ffrindiau agos, Richard Owen,



*Eirlys Twigg yn sefyll wrth ymyl ei gosodiad blodau hyfryd*



*Beti a Sian yn cyfrannu at y gwasanaeth yn y babell*



*John Tudno Williams yn rhannu gair am ei gyfrol newydd*




*Mari McNeill yn siarad am waith Cymorth Cristnogol*



*Geraint Michael yn arwain yr oedfa foreol*



*John Cwmbetws yn siarad ag Archesgob Cymru, Cherry Vann*



*Yr Esgob Wyn Evans yn rhoi cyflwyniad i'r Arglwydd Rhys*



*Sian Elin Thomas yn arwain yr oedfa foreol*



*Yr Esgob Dorrien Davies yn arwain y gwasanaeth cymun yn y babell*

Siôn Meredith a Gwenan Creunant. Roedd ffrind da arall iddo, Dafydd Pritchard, wedi paratoi soned arbennig i gofio amdano, a chafwyd cyfle i glywed honno'n cael ei darllen. Trefnwyd darlith hefyd ym Mhabell y Cymdeithasau ar y dydd Gwener, pan gafwyd cyfle i glywed yr Esgob Wyn Evans yn traethu ar yr Arglwydd Rhys ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Ymhlith y pigion o ddigwyddiadau eraill a gynhaliwyd ar hyd y maes yr oedd darlith ar y bardd a'r heddychwr Waldo gan Mererid Hopwood ac eraill, a thrafodaeth ar y 'Tangnefeddwyr Heddiw' o dan nawdd y Crynwyr. Cafwyd darlith hefyd i gofio 250 mlwyddiant geni Ann Griffiths, a hynny dan arweiniad medrus E. Wyn James a darlith ar y cerddor D. Emlyn Evans gan Delyth Morgans Phillips. Mewn cyfarfod arall, lansiwyd y bedwaredd gyfrol yn y gyfres Gofal ein Gwinllan, sy'n olrhain hanes yr Eglwys yng Nghymru.

Wrth edrych yn ôl ar yr wythnos, diolchwn am y cyfle i ddathlu ein celfyddyd fel Cymry, ac am y cyfle i gymdeithasu a mwynhau'r doniau sydd gennym fel cenedl. Diolchwn hefyd am y dystiolaeth Gristnogol gan Gristnogion y fro, mewn oedfaon a sgyrsiau, ond hefyd yn y tystio tawel wrth weini te a choffi a sgwrsio â'r bobl a fentrodd i mewn atom. Diolch yn fawr i'r 150 o wirfoddolwyr o blith y gwahanol enwadau wnaeth ymroi i gynnig lletygarwch a chroeso yn ystod yr wythnos. Erbyn hyn mae'r stondin wedi ei phacio, yn barod ar gyfer troedio i'r canolbarth y flwyddyn nesaf wrth i ardal Cemaes ein croesawu am wythnos arall o eisteddfota.

*Aled Davies*




*Y criw gweithgar yn gofalu am y gegin - dros 150 ohonynt i gyd*




*Sefyll dros heddwch ar faes yr Eisteddfod*




*Alwyn Daniels gyda rhai o aelodau'r eglwysi yn arwain y gwasanaeth boreol*



*Lansio cyfrol Euros Jones Evans*




*Lansio apêl Cymorth Cristnogol*

BBC radio cymru S4C

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 23 Awst 2026**

*Oedfa Radio Cymru* **Sul, 23 Awst am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Miriam Watling, Llundain

*Caniadaeth y Cysegr* **Sul, 23 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Detholiad o emynau o dan ofal Carwyn Siddall, Llanuwchllyn

Lansiwyd albwm o ganeuon Cristnogol newydd yn yr Eisteddfod eleni, sef *Goleuni*. Diolch arbennig i Betsan Daniel a James Oakley am roi blas o'r caneuon newydd ar y stondin.
Bydd *Goleuni* ar gael ar Apple Music, Spotify a chyfrif YouTube Undeb yr Annibynwyr yn fuan iawn!



## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *Rhan 5*

### Y digidol

Y mae ein hallbwn digidol wedi datblygu, gwella a chynyddu dros y blynyddoedd diweddar ac rydym ni'n ymwybodol yn y cyfnod ôl-Covid hwn fod y digidol wedi dod yn rhan allweddol o'n cenhadaeth ni bellach. Sut felly allwn ni gael y gorau allan o'r cyfrwng ar gyfer ein heglwysi a hefyd sut fedrwn ni ddefnyddio'r digidol i fod yn rhannu gair Duw yn ehangach?

Dyma i chi rai pethau yr ydym ni wedi bod yn gweithio arnyn nhw'n ddiweddar. Mae Carwyn drwy ei waith hyfforddiant eisoes wedi dangos fod defnyddio hybiau i dynnu pobl ynghyd yn beth effeithiol. Ond os yw'n heglwysi am fod yn rhan fyw o'r rhwydwaith digidol, yna bydd angen y cyfarpar arnynt, ac felly ein bwriad yw edrych ar ddulliau o alluogi hyn i ddigwydd. Byddai sicrhau sgriniau mewn capeli yn ffordd ymlaen gyda hyn. Wrth gwrs, mae rhai eglwysi yn defnyddio sgriniau eisoes. Yr ydym ni hefyd yn prinhau o ran niferoedd ein gweinidogion, felly sut fedrwn ni weithio gyda'n gweinidogion i ledaenu'r efengyl yn helaethach? Fe hoffem ystyried datblygu cynllun ble bydd rhaglen o oedfaon yn cael eu ffrydio'n fyw o eglwysi unigol gwahanol i'r sawl hoffai ymuno yn eu heglwysi hwy ar y Sul. Fydd dim rheswm i gau'r drws ar y Sul oherwydd diffyg pregethwr, am y bydd oedfa ar gael yn fyw i'w dangos ar sgriniau. Mwy i ddod am hyn dros y cyfnod nesaf.

### Adnoddau digidol

Yn ogystal â hynny mae'n hadnoddau digidol ni'n parhau i ymddangos ar y we. Mae gennym ymgyrchoedd i'w rhedeg dros y flwyddyn nesaf hefyd sef ymgyrchoedd Glandeg gyda'r Rhwydwaith Merched a Pum Peth Personol dan arweiniad yr Adran Dinasyddiaeth.

Mae'r holl waith digidol hyn er budd yr eglwysi ac unigolion, er mwyn cyfoethogi eu haddoliad a'u myfyrdodau personol. Y mae gennym genhadaeth ddigidol i'w chynnal i'r eglwys ddifuriau yn ogystal.

Y mae'r rhaglen waith Mission Support Programme 4 gan CWM yn dirwyn i ben nawr gyda bod Rhodri'r trefnu darnau olaf o'r elfen gerddoriaeth ddigidol. Felly byddwn yn dirwyn MSP4 i ben sef y Genhadaeth Ddigidol sy'n cynnwys adnoddau print digidol, ffilm digidol, sain digidol a cherddoriaeth ddigidol. Mae gennym gasgliad o ganeuon newydd a chyfarwydd wedi'u recordio at ddefnydd pwy bynnag yr hoffai eu defnyddio. Rydym hefyd wedi recordio y Beder Ifingyl (Lyn Lewis Dafis) ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las gan ddefnyddio lleisiau Shir Bemro ar gyfer Ap y Beibl. Rydym ni'n cydweithio gyda Chymdeithas y Beibl a Cytûn ar hyn ac mi fydd digwyddiad i ddathlu yn digwydd ym Mhabell y Cymdeithasau eleni ac er mwyn cofio Lyn.

### MSP5

Fe ddaw Mission Support Programme 5 yn fyw eleni gan CWM a phan ddaw, bydd gennym gynllun newydd i'w rannu. Fe wyddom ni, yn dilyn y cyfnod clo, fod yna chwyldro digidol wedi digwydd ac y mae'r chwyldro hwnnw am fod o gymorth i ni fel Undeb ac aelodau i fedru parhau i ddod ynghyd, i rannu'r efengyl ac i dystiolaethu i gariad Duw. I'r perwyl hwnnw, y syniad sydd gennym yw ein bod ni'n datblygu rhaglen deledu fisol Gristnogol Gymraeg i'w rhannu ar ein safle YouTube ar fodel rhaglen gylchgrawn ble bydd gwestai stiwdio'n rhannu'u profiad ac yna eitemau o bob cwr o Gymru am bethau sy'n digwydd hwnt ac yma, ynghyd â chaneuon, gweddïau a myfyrdodau byrion. Caiff ei his-deitlo fel bod unrhyw un yn medru gwylio. Dyma fydd ffenestr y byd arnom yng Nghymru. Bydd hefyd yn fodd i'r byd ddod atom ni gan y bydd modd i ni gael gwesteion rhyngwladol hefyd (nid oes yn rhaid i bob gwestai siarad Cymraeg achos nid S4C ydym ni). Trafod syniadau yr ydyn ni ar hyn o bryd, ond roeddwn am rannu gyda chi nawr fel eich bod chi'n rhan o hyn hefyd.

*Bydd rhan olaf yr adroddiad hwn yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*




## Adroddiad am waith hyfforddi *Rhan 2 – parhad*

Rhodri fel ein swyddog digidol.

Er mai'r ddwy wedd yna aeth â'r rhan fwyaf o'm hamser, cafwyd cyfleoedd i gyflawni sawl gwedd arall o dan faner hyfforddiant yr Undeb. Braint fu ymweld â rhai o'r cyfundebau, a chael sgyrsiau gyda chylchoedd penodol am hyfforddiant ac anghenion hyfforddi.

### Encil gweinidogion

Bendith fawr hefyd oedd treulio amser yng nghwmni rhai o fy nghyd weinidogion ac arweinwyr eglwysig yn yr encil. Eleni, newidiwyd yr encil ychydig, gan ei ehangu i dri diwrnod, ac ymweld â dinas Lerpwl. Drwy ymweld â'r ddinas arbennig honno, cafwyd cyfle i ystyried prosiect Legacies of Slavery a chynllun Onesimus CWM, yn ogystal ag olrhain hanes y Cymry fu'n byw yno, ac sy'n parhau i fyw yno heddiw, ac yn rhan o dystiolaeth Gristnogol Gymraeg y ddinas. Cafwyd tridiau arbennig a chofiadwy, a choron y cyfan i mi oedd cael cynifer yn cadarnhau mor llesol i'r meddwl, corff a'r ysbryd fu'r amser hwn. Hyfryd hefyd oedd cael agor ail ran yr encil i unrhyw un oedd yn dymuno mynychu.

Rydym wedi bod yn cynnal diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys hefyd yn y gorffennol ym mis Hydref, a bu'r dyddiau hyn yn fendith fawr wrth ystyried pynciau a materion cyfredol ynghlwm â'r gweinidogaethu. Y llynedd, cafwyd sesiynau cofiadwy iawn, yn cynnwys darlith ar Dietrich Bonhoeffer gan y Parchg Gwilym Tudur, a sesiwn ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial gan y Parchg Dylan Rhys. Mae rhai o'r sesiynnau hyn ar gael i'w gwylio ar ein gwefan hyfforddi.

Wrth i mi ddirwyn fy adroddiad i ben, rhaid cydnabod na allwn gyflawni dim o hyn heb gefnogaeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol, fy nghydweithwyr yn Nhŷ John Penri, swyddogion yr Undeb, ac aelodau'r Panel Dysgu a Datblygu.

Gyfeillion, mae'r ddarpariaeth yn ei lle, a'r croeso yn eich disgwyl. Ein braint yw cael darparu, ar gyfer y to a'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr a thystion, raglen i'w dysgu a'u datblygu i gyflawni'r gwaith er clod a gogoniant i Iesu Grist.

**Carwyn Siddall**

# Barn Annibynnol


## Pobol ’run fath â ni

Ar adegau byddwn yn clywed rhai Cristnogion yn amau gwerth yr Hen Destament fel rhan o’n Beibl Sanctaidd. Clywais fwy nag un yn dilorni llyfr Genesis, yn enwedig, fel casgliad o straeon chwedlonol ac amheus eu seiliau heb bwrpas ysbrydol.

Eto i gyd, pan ddechreuodd cenedl yr Iddewon roi eu storïau i lawr ar gof a chadw tua 500–450 cyn Crist, yn ôl yr ysgolheigion, roedd ganddyn nhw eu rhesymau dros gynnwys yr hanesion hyn o fewn eu hysgrythurau sanctaidd. Dywedai’r storïau rywbeth o bwys wrthyn nhw am ddyn a’i berthynas â’i Dduw. Gan hynny, fe dalai i ninnau eu hystyried o ddifri hefyd.

### Armstrong ar Genesis

Ceir digonedd o lyfrau sy’n ceisio esbonio Genesis os dymunwn ymhél â nhw. Un o’r awduron mwya darllenadwy ar y pwnc yw Karen Armstrong. Yn 17 oed ymunodd Armstrong ag urdd lleianod Catholig y Sisters of the Holy Child Jesus, ond ymadawodd â threfn lem y chwiorydd yn ystod ei hamser yng Ngholeg y Santes Anne yn Rhydychen. Oddi ar hynny newidiodd ei Christnogaeth o ffydd geidwadol at syniadau mwy rhyddfrydig a gwreiddiol. Darganfu amrywiol rinweddau mewn crefyddau eraill hefyd. Ers i’w hunangofiant *Through the narrow gate* ymddangos yn 1982 fe gyhoeddodd restr hir o lyfrau treiddgar ar grefyddau’r byd, yn cynnwys un ar lyfr Genesis, *In the beginning*, yn 1996.




Disgrifia Armstrong gymeriadau Genesis fel ‘damaged survivors’. Yn palfalu trwy sawl argyfwng personol, yn aml yn baglu’n foesol ar y ffordd, ond rywsut yn cyrraedd pen eu taith. Yn wir, mae’n ddigon hawdd i ni weld ein byd ein hunain yn hanesion Genesis, ac am y rheswm hwnnw’n unig maen nhw’n werth eu darllen.

### Creu bwystfil

Yng Ngardd Eden mae Adda ac Efa’n cymryd ffrwyth y Pren Gwybodaeth yn eu hysfa i feddiannu mwy a mwy, ond rhaid iddyn nhw dalu’r pris am anufuddhau i Dduw. Mewn modd cyffelyb, onid ydyn ninnau’n awchu am ehangu gorwelion ein gwybodaeth a’n galluoedd, ond pwy a ŵyr na chawn ninnau ein cosbi wrth i’n hymdrech i greu deallusrwydd gwneud, AI, gynhyrchu bwystfil a ddaw’n feistr arnom ni ein hunain yn y pen draw?

### Bwch dihangol

Er hoffter ein plant o stori neis Noa a’i harch lawn o anifeiliaid, rhaid cofio am y gynffon i’r stori: Noa’n meddwi’n gaib ac yn troi ei ddicter ar deulu ei fab Cham pan sonia hwnnw wrth ei frodyr am gyflwr gwarthus eu tad. Chwilio am fwch dihangol a wna Noa yn hytrach na wynebu ei fai ei hun. Chwilio am y bwch dihangol fu tuedd dyn erioed hefyd, boed yn lleiafrifoedd hiliol fel yr Iddewon neu’r ffoaduriaid sy’n ceisio lloches yn ein plith.

### Hunan-les

Does yma ddim prinder enghreifftiau o hunanoldeb a hunan-les, ychwaith. Dyna Abraham, un detholedig Duw, yn yr Aifft yn cynnal y celwydd taw ei chwaer yw ei wraig Sarah fel na fydd neb yn ymosod arno er mwyn ei chipio. Yna’n bodloni i Pharo ddewis Sarah fel un o’i harem. Rhoi ei wraig ei hun drwy’r felin honno er mwyn ennill ffafr a rhoddion Pharo.

Daeth y sgam yn rhan o fywyd bob dydd bellach, ysywaeth, yn enwedig ar-lein. Ac edrychwch ar y sgam yn hanes Jacob, sy’n twyllo ei dad Isaac taw ei frawd Esau yw e er mwyn dwyn bendith ac etifeddiaeth ei dad oddi wrth ei frawd! Ond caiff Jacob flas o’i wermod ei hun trwy law ei ewythr Laban, hwnnw’n rhoi ei ail ferch Rachel yn wraig i Jacob, sy’n dwlu arni, ond yna’n smyglo ei chwaer Leah i’r gwely priodasol yn ei lle ar y noson gynta!

### Erchyllterau

Y dyddiau hyn ceir erchyllterau yn y byd na fu dim tebyg iddyn nhw gynt, does posib. Y lladdfa yn Gaza, er enghraifft. Ond beth a welwn pan fydd Jacob a’i lwyth niferus yn gwersylla ger tref Shechem ar dir y Cananeaid? Mab pennaeth y dref yn cipio Dinah, merch Jacob, ei threisio a’i chario nôl adre. Brodyr Dinah wedyn yn casglu eu gwŷr ac yn ymosod ar Shechem yn gynddeiriog, yn achub Dinah ond hefyd yn lladd dynion a menywod y dref mewn cyflafan arswydus.

I ysgrifenyddion pobol Israel a gofnododd y straeon, y cymeriadau hyn oedd eu cyndeidiau, arwyr y storïau a drosglwyddwyd o un genhedlaeth i’r llall. Yn ôl Karen Armstrong, chwiliwn yn ofer am wersi moesol neu ddiwinyddiaeth yn Genesis. Y brif thema yw goroesi. Ond bob hyn a hyn daw eiliad o ysbrydoliaeth, o ras, o drugaredd.

Mae’r arwyr yn aml yn hunanol neu’n llwfr. Dydyn nhw ddim yn berffaith o bell ffordd. Ond maen nhw’n pydru yn eu blaen, yn chwilio am eu Duw ac yn gobeithio am ei fendith. Digon tebyg i ni?

**Robat Powell**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)




Diwrnod i weinidogion ac arweinyddion sydd â gofal eglwys

~~~~~~~~~~~~~~~~~~

Dewch i ymuno â ni mewn diwrnod arbennig sy’n canolbwyntio ar y thema
CYFATHREBU

Dydd Mawrth, 13 Hydref 2026 yn Llety’r Parc, Aberystwyth

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

| | |
|---|---|
| 10:00 | Te / coffi |
| 10:15 | **Sian Meinir a’r Parchedig Beti-Wyn James**<br>Defosiwn yn seiliedig ar benderfyniad adran Yr Eglwysi a’u Gweinidogaeth yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb. |
| 10:45 | **Delyth Phillips**<br>Yr emyn fel cyfrwng cyfathrebu |
| 11:45 | Te / coffi |
| 12:00 | **Sian Owen**<br>Eglwys Gynhwysol – yr angen i gyfathrebu’n effeithiol. |
| 13:00 | Cinio |
| 13:30 | **Trafodaeth**<br>‘Cyfathrebu effeithiol – allwedd i’n cenhadaeth’ |
| 14:00 | **Parchedig Cass Meurig**<br>‘Chwarae a Chredu’ – Godly Play yn y Gymraeg. Cyfle i ddysgu mwy am yr adnodd hwn i gyfathrebu â phlant. |
| 15:00 | **Parchedig Cass Meurig**<br>Defosiwn i gloi’r diwrnod ar ffurf ‘Chwarae a Chredu’ |
| 15:30 | Te / coffi ac ymadael |

Cofrestrwch erbyn 30 Medi 2026 – carwyn@annibynwyr.cymru

*Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl*



Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MODIWL
Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, 7 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 14 Medi | 7:30- 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 21 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 28 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 5 Hydref | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Dydd Llun, 12 Hydref | 10:00 - 3:00 | Aberystwyth |

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn ‘beth yw sacrament?’, edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a’r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Arolwg Eco Eglwys yn y Gymraeg




Mae'n bleser cyhoeddi y gall eglwysi nawr gwblhau arolwg Eco Church/ Eco Eglwys ar-lein yn y Gymraeg. Bellach gyda dros 630 o gapeli ac eglwysi o Gymru wedi cofrestru gyda'r cynllun (ar draws yr enwadau) a gyda bron i 100 o wobrau arian a naw gwobr aur, mae pethau'n edrych yn addawol iawn! Rydym wedi bod yn gweithio ar gyflawni'r prosiect swmpus hwn am beth amser gan mai'r arolwg hwn sydd wrth wraidd yr holl gynllun. Mae ei gael yn Gymraeg felly yn destun balchder mawr i ni – dyma'r unig iaith mae arolwg Eco Eglwys ar gael ynddi (yn swyddogol!) ar wahân i'r Saesneg. Rydym wedi cyrraedd y nod yn ystod ein degfed blwyddyn eleni!

Yn syml, rhaglen ymarferol ar-lein yw Eco Church/Eco Eglwys sy'n tywys eglwysi ar daith i gymryd camau i fod yn fwy gofalgar ac ystyrlon o ran yr amgylchedd a gofalu am y cread. Mae iddo bum adran; Addoli ac Addysgu; Adeiladau ac Ynni; Tir a Byd Natur; Ymgysylltiad Cymunedol a Byd-eang, a Ffordd o Fyw.

Mae yna lu o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg wedi bod ar gael am flynyddoedd, ac ers rhyw ddeunaw mis, mae yna ddwy ddogfen esboniadol wedi bod ar gael hefyd; un yn rhoi cipolwg ar gynllun Eco Eglwys ac un arall yn rhoi syniadau ar sut i ddechrau Eco Eglwys, ynghyd â dogfennau 'trosolwg' i bob un o'r pum adran.

Felly ewch draw i gael golwg, ac ar ôl i chi gofrestru ac ymuno dewiswch yr opsiwn yn Gymraeg cyn dechrau'r arolwg. (https://ecochurch.arocha.org.uk/)

Yn dilyn gwasanaeth llwyddiannus iawn yn Abertawe mis Mai, cadwch lygaid am fanylion gwasanaeth arbennig yn Lerpwl ar 3 Hydref i ddathlu deg mlynedd o waith Eco Church/Eco Eglwys. Byddai'n braf gweld cynrychiolaeth o eglwysi gogledd Cymru yno.

**Delyth Higgins**

# Newyddion o Geredigion

## Capel Pantycrugiau, Plwmp

Yn y llun gwelir rhai o ddiaconiaid a gweinidog capel Pantycrugiau yn llongyfarch aelod hynaf eglwys Pantycrugiau sef Mrs Mevis Wilson, (gynt Gwndwn, Pentregât) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Yn y llun gwelir o'r chwith i'r dde; Alan Rees, Parchg Carys Ann, Mevis Wilson, Bethan Rees, Bill Moss.

Edmygwn Mevis a llawer un arall sydd wedi cyrraedd yr un oed am ddyfalbarhau i gysylltu trwy e-bost, gwneud cyfraniadau at yr eglwys trwy eu ffôn symudol, gan edrych mor dda, mor ifanc a dal i yrru car, yn ddiogel iawn o amgylch Ceredigion. Esiampl yn wir.

**Carys Ann**



**HYSBYSEB SWYDD**

Gofalaeth Eglwysi Annibynwyr
Dolgellau, Llanelltyd ac
Ardal Dinas Mawddwy

**SWYDD: GWEITHIWR IEUENCTID**
(Cynradd ac Uwchradd)

Rydym yn chwilio am gyd-weithiwr i ymunogyda ni i'n cynorthwyo yn ein cenhadaeth o **Addoli Duw, Tyfu'r Eglwysi a Charu'r Byd yn y Gymraeg.**

Bydd penodiad yn ddibynol ar wiriad DBS estynedig.

Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn cael ei benodol ar delerau hunan gyflogedig. **Tâl £25** yr awr.

Bydd y cyflogedig yn gweithio oriau sy'n cyfateb i ddiwrnod a hanner yr wythnos (10.5 awr) dros gyfnod o oddeutu 40 wythnos y flwyddyn.

Am ragor o fanylion, swydd ddisgrifiad llawn neu sgwrs anffurfiol cysylltwch gyda'r Gweinidog :
**parcheuronhughes@gmail.com**
neu dros y ffôn ar **07826708652**

Ceisiadau drwy llythyr cais ynghyd a C.V. a manylion cyswllt dau ganolwr.

**DYDDIAD CAU : 7 MEDI 2026**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*